

# Canfyddiadau'r Ymgynghoriad

## Cynnig i Gynyddu Capasiti Disgyblion Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd



Fersiwn Plant a Phobl Ifanc



## Beth sydd wedi digwydd?

Yn ddiweddar, gofynnodd Corff Llywodraethol Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd am farn Plant a Phobl Ifanc ar y cynlluniau i gynyddu capasiti Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd.

Hoffem gynnig lleoedd ar gyfer hyd at 3 yn fwy o blant ym mhob grŵp blwyddyn trwy'r ysgol o 1 Medi 2022.

Roeddem am roi cyfle i bawb gael eu lleisiau wedi'u clywed ynglŷn â phenderfyniadau sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt. . Fel rhan o'r broses gwnaethom gynnig sesiwn ymgynghori i Gyngor Ysgol Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd. Cynhaliwyd y sesiwn hon ar 6 Hydref 2021.

Daeth y disgyblion i'r sesiynau a dywedasoeh wrthym beth oeddech chi'n ei feddwl am y cynlluniau. Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r sylwadau o'r sesiynau ymgynghori ac adborth i unrhyw gwestiynau a materion a godwyd.



## Beth oedd barn y disgyblion am yr ysgol ar hyn o bryd?

Yn y sesiwn gwnaethom ofyn i'r disgyblion feddwl am air a oedd yn disgrifio Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd orau. Isod gweler ymatebion o'r sesiwn.

*Po fwyaf yw'r testun, po amlaf y dywedwyd yr ateb hwnnw.*

**hwyl**

**anhygoel**

**croesawgar**

**llawen**

**cymuned**

**hardd**

**bleserus**

**diogel**

# Sut ydych chi'n teimlo am Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn cael mwy o ddisgyblion?

Po fwyaf yw'r testun, po amlaf y dywedwyd yr ateb hwnnw.

angen sicrhau bod digon o le  
pryderus  
hwyyl od diddorol da

da oherwydd byddwn yn dod i adnabod pobl newydd

hapus  
gyffrous

mwy o pobl i chwarae gyda

Gyffrous i ddysgu gyda mwy o bobl



**Sut ydych chi'n teimlo am y posibilrwydd o rannu dosbarth efo plant sydd flwyddyn yn hŷn neu flwyddyn yn iau na thi?**

*Po fwyaf yw'r testun, po amlaf y dywedwyd yr ateb hwnnw.*

**gwneud mwy o ffrindiau a gwybod mwy o'r plant yn yr ysgol**

**rhyfedd**

**od ond hwyl**

**da**

**gwahanol**

**hapus**

**od oherwydd gall ffrindiau gael eu gwahanu**

**neis**

**gyffrous**

**iawn, rydyn ni eisiaes yn cymysgu dosbarthiadau beth bynnag**

**efallai nad ydyn nhw'n gwybod y rheolau**

**gallwn i ddysgu nhw bethau nad ydyn nhw'n eu gwybod**



## **Oes yna unrhyw beth arall fyddet ti'n hoffi ei weld yn digwydd yn hytrach na beth sydd yn ein cynllun?**

Ni wnaed unrhyw awgrymiadau ar unrhyw beth arall yr hoffai'r grŵp ei weld yn digwydd yn lle'r cynnig yn y drafodaeth grŵp neu ar y ffurflenni dychwelyd ymateb.

Gwnaed awgrymiadau i wella cyfleusterau'r ysgol ac offer dysgu fel cynyddu offer yn yr ardaloedd awyr agored a darparu gwahanol offerynnau cerdd. Mae'r awgrymiadau hyn wedi'u trosglwyddo i'r ysgol.



## Cwestiynau eraill a ofynnir gan ddisgyblion

Sut y penderfynir gyda phwy y byddwn yn rhannu dosbarth?

Bydd athrawon yn gwneud penderfyniad ar sut mae grwpiau blwyddyn yn cael eu rhannu yn seiliedig ar nifer o bethau fel grwpiau iaith a chyfeillgarwch.

A fydd mwy o ddisgyblion yn yr ysgol yn golygu na fyddai digon o le / offer i bawb?

Mae dyluniad yr Ysgol yn cynnwys y lle ychwanegol sydd ei angen ar gyfer y 3 disgybl ychwanegol ym mhob grŵp blwyddyn. Os oes angen unrhyw offer ychwanegol bydd yr ysgol yn gallu prynu mwy i sicrhau bod digon i bawb.

A fydd disgyblion o'r un flwyddyn ysgol (os ydynt wedi'u gwahanu) bob amser yn cael eu gwahanu oddi wrth weddill eu grŵp blwyddyn?

Bydd yr ysgol yn ceisio gwneud hyn yn seiliedig ar amserlen, staffio a sicrhau bod y lle iawn ar gael. Byddai egwylliau ac amser cinio yn cael eu hamserlennu fel y byddai grwpiau blwyddyn gyda'i gilydd.



## Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr adroddiad ymgynghori yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar aelodau'r Corff Llywodraethol i wneud penderfyniad a ddylid parhau â'r cynllun ai peidio.

Os bydd y Corff Llywodraethol yn cytuno â'r cynnig, bydd rhybudd statudol yn amlinellu'r cynnig yn cael ei gyhoeddi. Bydd hyn yn rhoi amser i bobl ddweud wrthym os nad ydyn nhw'n hapus gyda'r cynnig. Gwneir penderfyniad terfynol yn y Flwyddyn Newydd.

Os cytunir ar y cynllun, disgwylir y bydd y disgyblion ychwanegol yn gallu mynychu'r ysgol o fis Medi 2022.